# Prif Linell Reilffordd y De (PLRD) - Dyheadau a Chynigion

Gwaith helaeth i uwchraddio PLRD o ran ei chapasiti, cyflymder y llinell, a cherbydau, a gwaith trydaneiddio dros ardal eang, er mwyn:

- Darparu gwasanaethau cyflym ychwanegol i Abertawe a Gorllewin Cymru o Lundain, Gorsaf Temple Meads ym Mryste, a Chanolbarth Lloegr, yn ogystal â gwell mynediad i Faes Awyr Heathrow.
- Dyma'n huchelgais o ran amserau teithio:
  - Caerdydd - Llundain mewn 85 munud
  - Caerdydd - Abertawe mewn 30 munud
  - Caerdydd - Temple Meads, Bryste mewn 35 munud
  - Caerdydd - Caerfyrddin mewn 75 munud
- Gwasanaethau lleol newydd i gymudwyr (gan gynnwys rhagor o wasanaethau i Temple Meads, Bryste) a rhagor o orsafoedd, gan gynnwys: Parcffordd Caerdydd, Llan-wern, Ffordd Casnewydd/Rover Way, Magwyr, Cyffordd 34 ar yr M4, Sanclêr, y Cocyd.
- Mynd i'r afael â gwasgfeydd mawr ar wasanaethau PLRD yng nghyffordd y Parc ar linell Cwm Ebwy ac yng Ngorllewin Caerdydd, ac uwchraddio llinellau rheilffordd y Gororau, Cwm Ebwy a Maesteg.
- Cyfnewidfeydd mewn hybiau allweddol rhwng gwasanaethau cyflym PLRD a'n Metros, gwasanaethau rheilffordd lleol i gymudwyr, gwasanaethau trenau-tramiau newydd (gan gynnwys Crossrail Caerdydd/Coridor y Gogledd-orllewin a gwasanaeth Metro Abertawe) a gwasanaethau bysiau newydd ar draws y De o Aberdaugleddau i Gyffordd Twnnel Hafren.

